# Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd. Rydym o'r farn bod y modd yr ydym yn gwneud pethau yr un mor bwysig â'r hyn rydym yn ei wneud. Mae ein gwerthoedd yn cael eu hysbrydoli gan egwyddorion cydweithredol rhyngwladol ond wedi'u hysgrifennu yn ein geiriau ein hunain. Maent yn dynodi'r hyn yr ydym ni, y modd yr ydym yn gwneud pethau a lle yr ydym yn dymuno bod. Mae angen i'r holl staff, aelodau'r bwrdd a'r gwirfoddolwyr ymrwymo i weithredu o fewn ein gwerthoedd.

| Ein Gwerthoedd | Ein Hymddygiadau |
|---|---|
| **Bod yn gydweithredol...**<br>rydym yn cydweithio er lles ein gilydd | Rydym yn gweithio'n gydweithredol - gyda'n timau gwaith uniongyrchol, ledled y busnes ehangach a chyda rhanddeiliaid eraill<br>Rydym yn rhannu offer, adnoddau, sgiliau, gwybodaeth a syniadau<br>Rydym yn datblygu ymddiriedaeth a pherthnasoedd buddiol sy'n barhaus<br>Rydym yn gweithio gyda'r sector ac ar ei ran |
| **Bod yn gefnogol...**<br>rydym yn rhoi ein hamser, ein harbenigedd a'n hanogaeth | Rydym yn barod i helpu ein cleientiaid a'n cydweithwyr<br>Rydym yn credu yn sgiliau eraill<br>Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eraill<br>Rydym yn edrych ar ôl lles ein gilydd<br>Rydym yn ystyrlon o effaith ein gweithredoedd ar eraill<br>Rydym yn drugarog |
| **Bod yn deg...**<br>rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a democratiaeth | Rydym yn ymddwyn yn deg ac yn eglur<br>Rydym yn ymdrechu am degwch ym myd busnes ac mewn cymunedau<br>Rydym yn trin eraill â pharch<br>Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol |
| **Meddu ar ddidwylledd...**<br>rydym yn ymdrechu i fod yn agored ac yn onest ym mhob peth yr ydym yn ei wneud | Rydym yn ymddwyn yn foesegol<br>Rydym yn gwneud y peth iawn<br>Rydym yn cynnal gwerthoedd<br>Rydym yn broffesiynol<br>Rydym yn atebol<br>Rydym yn amgylcheddol gyfrifol |
| **Bod yn bositif...**<br>rydym yn buddsoddi ein hegni er mwyn sicrhau canlyniadau | Rydym yn canolbwyntio ar ddatrysiadau<br>Rydym yn mynd yr ail filltir<br>Rydym yn cyflawni gwaith o safon uchel<br>Rydym yn angerddol am ein gwaith<br>Rydym yn dysgu o'n camgymeriadau |
| **Bod yn ysbrydoledig...**<br>rydym yn ysgogi busnesau, cymunedau a phobl i gymryd yr awenau a chyrraedd eu potensial | Rydym yn cynnig cyfleoedd<br>Rydym yn meithrin ysbrydoliaeth<br>Rydym yn adeiladu sgiliau a hyder<br>Rydym yn sbarduno newid<br>Rydym yn arwain trwy esiampl<br>Wrth i ni helpu eraill i dyfu rydym ninnau'n tyfu hefyd |